Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

# Case Study / Astudiaeth Achos

## Narberth Museum / Amgueddfa Arberth

### WHY TAKE PART ?

The Learning Officer attended a course about engaging disadvantaged audiences and heard a presentation by a Kids in Museums speaker. Using Kids in Museums case studies as inspiration, she decided to combine Taking Over Museums Day with a community day and forthcoming exhibition.

It was the museum's first time participating in Taking Over Museums Day and following a long closure, it wanted to raise its profile across the whole community. The Learning Officer had good links with the participating school, having previously worked there. Although many of the children regularly visited with their families, the Learning Officer wanted to provide something more involving and educational that would be mutually beneficial for the school and the museum, and more fun for the children.

### WHO TOOK PART ?

Sixteen children were selected from four Year 5 and 6 classes (9-11 year olds). The school has an English speaking and Welsh speaking class in each year group and children delivered talks in both languages. The school were keen to ensure close links to the National Curriculum.

### WHAT DID THEY DO ?

The children ran the shop and café, designed a new menu and selected and labelled objects for the Inside Welsh Homes exhibition (January - April 2014). They gave a lecture on model railways and the railway in Narberth to an adult group.

The Learning Officer made a pre-visit to the school and discussed with the children what they might do on Taking Over Museums Day. They decided to get involved with the day-to-day running of the café and the shop and planned the café menu in advance.

### BETH OEDD EICH RHESWM DROS GYMRYD RHAN?

Aeth y Swyddog Dysgu ar gwrs ynglŷn ag ennyn diddordeb cynulleidfaoedd difreintiedig a chlywodd gyflwyniad gan siaradwr o Kids in Museums. Gan gymryd ei hysbrydoliaeth o astudiaethau achos Kids in Museums, penderfynodd gyfuno'r Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd gyda diwrnod cymunedol ac arddangosfa sydd ar y gweill.

Dyma oedd y tro cyntaf i'r amgueddfa gymryd rhan yn y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd ac, ar ôl cyfnod hir o fod ar gau, roedd eisiau codi ei phroffil drwy'r gymuned gyfan. Roedd gan y Swyddog Dysgu gysylltiadau da gyda'r ysgol oedd yn cymryd rhan, am ei bod wedi gweithio yno yn y gorffennol. Er bod llawer o'r plant yn ymweld gyda'u teuluoedd yn rheolaidd, roedd y Swyddog Dysgu eisiau darparu rhywbeth mwy addysgiadol fyddai'n cynnwys y plant fwy nag o'r blaen ac a fyddai yr un mor fuddiol i'r ysgol ac i'r amgueddfa ac yn fwy o hwyl i'r plant.

### PWY GYMERODD RAN?

Dewiswyd 16 o blant o bedwar dosbarth Blwyddyn 5 a 6 (9-11 oed). Mae gan yr ysgol ddosbarth siarad Cymraeg a dosbarth siarad Saesneg ymhob grŵp blwyddyn a darparodd y plant sgyrsiau yn y ddwy iaith. Roedd yr ysgol yn awyddus i sicrhau cysylltiadau agos â'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

### BETH WNAETHON NHW?

Rhedodd y plant y siop a'r caffi, gan lunio bwydlen newydd a dewis a labelu gwrthrychau ar gyfer yr arddangosfa Inside Welsh Homes (Ionawr - Ebrill 2014). Yna aethant ati i roi darlith ar reilffyrdd model a'r rheilffordd yn yr Arberth i grŵp o oedolion.

Daeth y Swyddog Dysgu i ymweld â'r ysgol o flaen llaw a thrafod gyda'r plant y pethau y gallent eu gwneud ar y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd. Penderfynwyd y byddent yn helpu i redeg y caffi a'r siop gan gynllunio bwydlen y caffi o flaen llaw. Roeddent yn awyddus

They were very keen to work in the café and some explained their credentials as if it was a job.

## HOW DID THEY SPEND THEIR TIME ON THE DAY?

The day was planned with museum staff in advance, using a flexible timetable to ensure activity timings worked to coincide with the end of the school day. Children were split into groups of four and arrived before opening time. They worked in pre-arranged areas until lunchtime and gave their talks after lunch. At least two members of staff helped them on the day. On Taking Over Museums Day itself, children acted as:

**Shop Assistants** – arranging and making decorations for the shop's Christmas window display, working behind the desk on the till, organising stock and answering the phone
**Café Assistants** – writing the daily menu board, pricing café stock, making hot drinks and clearing tables, preparing lunch for the children, staff and volunteers and making toast, sandwiches and cakes for visitors
**Curators: guides** – preparing talks e.g. one student created a PowerPoint on railway history, deciding on objects they wanted to show and giving lectures to parents, museum Friends and visitors who'd read about the event in the press
**Curators: touring exhibition** – choosing objects and making labels describing why they'd chosen the object and what it meant for them for *Inside Welsh Homes*
**Visitor welcome assistants** – guiding visitors to their seats and introducing their own work

## WHAT HAPPENED NEXT?

- The children enjoyed participating in Taking Over Museums Day and have since returned to the museum on several occasions to stage and label the exhibition and for an opening celebration
- One student collects antiques and following Taking Over Museums Day, contacted the museum to ask if she could loan several items to the *Inside Welsh Homes* exhibition
- The museum is considering ways to be more accessible e.g. creating a child friendly menu
- The Learning Officer is considering further ways to enable children to be more independent in learning

iawn i weithio yn y caffi ac roedd rhai o'r plant eisiau esbonio pam y byddent yn weithwyr caffi da, fel petaen nhw'n gwneud cais am swydd.

## SUT DREULIODD PAWB EU HAMSER AR Y DIWRNOD?

Cynlluniwyd y diwrnod gyda staff yr amgueddfa o flaen llaw, gan ddefnyddio amserlen hyblyg i sicrhau bod amseriadau'r gweithgareddau'n dod i ben erbyn diwedd y diwrnod ysgol. Rhannwyd y plant yn grwpiau o bedwar a daethent i'r amgueddfa cyn amser agor. Roeddent yn gweithio mewn mannau oedd wedi eu trefnu o flaen llaw tan amser cinio ac yna cawsent roi eu sgyrsiau ar ôl cinio. Bu o leiaf dau aelod o staff yn eu helpu ar y diwrnod. Ar y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd ei hun, bu'r plant yn gweithio fel:

**Gweithwyr Siop** – yn trefnu a gwneud addurniadau ar gyfer arddangosfa ffenestr Nadolig y siop
**Gweithwyr Caffi** – yn ysgrifennu'r bwrdd bwydlen dyddiol, yn prisio stoc y caffi, yn gwneud diodydd poeth ac yn clirio byrddau, yn paratoi cinio i'r plant, y staff a'r gwirfoddolwyr ac yn gwneud tost, brechdanau a chacennau i ymwelwyr
**Curaduron: tywyswyr** – yn paratoi sgyrsiau e.e. creodd un myfyriwr gyflwyniad PowerPoint ar hanes y rheilffordd. Roeddent hefyd yn penderfynu pa wrthrychau i'w dangos ac yn rhoi darlithoedd i rieni, Cyfeillion yr Amgueddfa ac ymwelwyr oedd wedi darllen am y digwyddiad yn y wasg
**Curaduron: arddangosfa deithiol** – yn dewis gwrthrychau ar gyfer *Inside Welsh Homes* ac yn creu labelau yn disgrifio pam roeddent wedi dewis y gwrthrychau a'r hyn yr oeddent yn ei olygu iddyn nhw
**Cynorthwywyr i groesawu ymwelwyr** – yn arwain ymwelwyr i'w seddi ac yn cyflwyno eu gwaith eu hunain

## BETH DDIGWYDDODD WEDYN?

- Bu'r plant yn mwynhau cymryd rhan yn y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd ac, ers hynny, maent wedi dod yn ôl i'r amgueddfa nifer o weithiau i gynnal a labelu arddangosfa ac i fwynhau dathliad agoriadol
- Mae un myfyriwr yn casglu hen bethau ac, yn dilyn y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd, cysylltodd â'r amgueddfa i ofyn a allai roi benthyg nifer o'i nwyddau i'r amgueddfa ar gyfer yr arddangosfa *Inside Welsh Homes*
- Mae'r Amgueddfa'n ystyried ffyrdd o fod yn fwy hygyrch e.e. creu bwydlen sy'n addas i blant
- Mae'r Swyddog Dysgu'n ystyried ffyrdd pellach o

sessions and more discursive ways to interact with school groups

- The *Inside Welsh Homes* exhibition has had widespread appeal with many visitors coming along exclusively to see how the children have interpreted the theme

*'The biggest benefit for Narberth Museum's Taking Over Museums Day was seeing things from the children's perspective, adjusting how we think and write about things, considering ways to make our exhibitions more interesting and thinking about how we approach getting information across to people with regards to signage, talking to and greeting the general public.'* Learning Officer

alluogi plant i fod yn fwy annibynnol mewn sesiynau dysgu a ffyrdd mwy rhesymegol o ryngweithio â grwpiau ysgol

- Mae'r arddangosfa *Inside Welsh Homes* wedi apelio ar raddfa eang ac mae llawer o ymwelwyr wedi dod draw yn arbennig i weld sut mae'r plant wedi dehongli'r thema

*'Mantais fwyaf y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd i Amgueddfa Narberth yw ein bod yn awr yn gallu gweld pethau o safbwynt y plant. Mae hyn yn golygu ein bod wedi addasu'r ffordd yr ydym yn ysgrifennu am bethau, yn ystyried ffyrdd o wneud ein arddangosfeydd yn fwy diddorol ac yn meddwl sut y dylem drosglwyddo ein gwybodaeth i bobl yn y ffordd y lluniwn ein arwyddion, y ffordd yr ydym yn sgwrsio â phobl a sut yr ydym yn cyfarch y cyhoedd'.* Swyddog Dysgu